# Polisi Cwynion

## 1. Cyflwyniad

Polisi'r Brifysgol yw sicrhau bod unrhyw broblemau neu faterion y gall aelodau o staff eu codi mewn perthynas â'u hamodau gwasanaeth neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'u cyflogaeth yn cael ei drin yn deg, yn effeithlon ac mor gyflym â phosibl.

## 2. Diffiniad o Gŵyn

Cwynion yw unrhyw bryderon neu broblemau y mae cyflogeion yn eu codi â'u cyflogwr.

## 3. Gwneud Cwyn

Dylai cyflogeion geisio datrys y rhan fwyaf o gwynion yn anffurfiol gyda'u rheolwr llinell. Os gwneir cwyn yn erbyn yr unigolyn a fyddai'n delio â'r gŵyn fel arfer, gall y cyflogai fynd at reolwr yr unigolyn hwnnw neu reolwr arall yn y sefydliad. Os nad yw cyflogai wedi gallu datrys cwyn yn anffurfiol, gall ddilyn y weithdrefn gwyno ffurfiol sy'n berthnasol i'w gategori o staff (gweler yr adran gyfeirio isod ar gyfer y gweithdrefnau gwahanol).

Ni chaiff anghydfodau bach na cheisiadau unigol e.e. am godiad cyflog neu ddyrchafiad, eu hystyried yn gwynion oni bai bod mater cytundebol neu gydraddoldeb penodol ynghlwm wrthynt.

Mae gweithdrefnau ar wahân ar gael ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â bwlio ac aflonyddu a graddfeydd swyddi. Gellir gweld y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn yr adran gyfeirio isod.

## 4. Yr hawl i ddod â chydymaith i Wrandawiad Cwyno

Mae'n rhaid i gyflogeion wneud cais rhesymol i ddod â chydymaith gyda nhw.
Gall y cydymaith hwnnw fod yn gydweithiwr neu'n swyddog undeb a gyflogir gan y Brifysgol. Ni ddylai argaeledd y cydymaith osod cyfyngiadau afresymol ar amserlen y gwrandawiad. Os yw'r cyflogai neu ei gydymaith yn anabl, dylid ystyried hyn a gwneud darpariaethau rhesymol er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn yn y gwrandawiad.

Gall cymdeithion anerch y gwrandawiad er mwyn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno achos y cyflogai
- Crynhoi achos y cyflogai
- Ymateb ar ran y cyflogai i unrhyw farn a fynegir yn y gwrandawiad.

Gall cymdeithion ymgynghori â'r cyflogai yn ystod y gwrandawiad. Nid oes gan y cydymaith unrhyw hawl i ateb cwestiynau ar ran y cyflogai nac anerch y gwrandawiad os nad yw'r cyflogai yn dymuno iddo wneud hynny, nac atal y cyflogai rhag egluro ei achos.

Os na all y cydymaith a ddewiswyd fynychu'r gwrandawiad ar y dyddiad a gynigiwyd, gall y cyflogai gynnig amser a dyddiad arall ar yr amod bod yr amser a'r dyddiad hwnnw'n rhesymol ac o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad gwreiddiol.

Mae'r hawl i ddod â chydymaith i'r gwrandawiad yn gymwys i 'weithwyr' yn ogystal â chyflogeion, felly bydd yn gymwys i bob gweithiwr gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr gartref sy'n mynychu gwrandawiadau disgyblu neu gwyno.

## 6. Staff Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae'r Brifysgol yn croesawu cwynion yn Gymraeg a Saesneg gan staff Y Brifysgol Agored sy'n gweithio yng Nghymru. Gall y staff hyn hefyd ddewis ymateb i gwynion yn Gymraeg neu Saesneg.

## 5. Dogfennau Cyfeirio Defnyddiol

Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Staff Academaidd a Staff sy'n Gysylltiedig â Materion Academaidd
Gweithdrefn Gwyno ar gyfer Staff Cymorth
Polisi Bwlio ac Aflonyddu
Gweithdrefnau ar gyfer Delio â Phroblemau a Materion Gwaith a Godir gan Ddarlithwyr Cyswllt (ar gael ar Tutor Home)
Gweithdrefnau ar gyfer Delio â Pherfformiad Annigonol neu Gamymddygiad gan Ddarlithwyr Cyswllt a Staff yr Ysgol Breswyl